# Y Rhaglen Dystiolaeth ar Gyflwr Tai

## Arolwg Cyflwr Tai yng Nghymru 2017-18

### Cynllun cyhoeddi: Diweddarwyd Rhagfyr 2018

Diben y ddogfen hon yw darparu amcan i ddefnyddwyr a phartïon eraill â diddordeb o'r wybodaeth o Arolwg Cyflwr Tai Cymru (yr Arolwg) 2017-18 y bwriedir ei chyhoeddi.

### Y Datganiad Ystadegol Cyntaf

Roedd penawdau'r canlyniadau cenedlaethol wedi cael eu cyhoeddi ar wefan Arolwg Cyflwr Tai Cymru (ACTC) ar 6ed Rhagfyr 2018. Diben cyhoeddi'r rhain oedd darparu amcan da o'r data sydd ar gael o'r arolwg, a'u rhyddhau i'r cyhoedd eu gweld. Cyhoeddwyd Dangosydd Canlyniadau er mwyn i ddefnyddwyr allu archwilio data ar ystod y bynciau. Cyhoeddwyd hefyd dogfennau cynorthwyol megis Adroddiad Ansawdd ac Adroddiad Technegol.

### Adroddiadau pwnc manwl (ar lefel genedlaethol)

Nawr fod y Datganiad Ystadegol Cyntaf wedi'i gyhoeddi, bydd tîm y Rhaglen Dystiolaeth yn symud ymlaen i lunio adroddiadau pwnc manwl. Rhagwelir y bydd y rhain yn cael eu cyhoeddi o ddechrau 2019 ymlaen. Yn sgil ymgynghori â defnyddwyr, tu fewn a'r tu allan i Lywodraeth Cymru, penderfynwyd cyhoeddi'r adroddiadau a ganlyn, yn nhrefn blaenoriaeth.

Nodir y bydd yr adroddiad pwnc cyntaf ar Safon Ansawdd Tai Cymru oherwydd nid oedd hwn wedi ei gynnwys yn y Datganiad Ystadegol Cyntaf.

- Safon Ansawdd Tai Cymru.
- Nodweddion a chyflwr y Stoc Tai (ee oedran y stoc, math, deiliadaeth, adeiladwaith, amwynderau, darpariaeth lleoedd parcio, gerddi neu ofod awyr agored arall, hygyrchedd, yr ardal leol); nodweddau'r aelwyd (faint sy'n byw yno, oedran penteulu, cyfansoddiad yr aelwyd, materion ariannol yn ymwneud â thai a llety ayyb).
- Effeithlonrwydd Ynni Anheddau (gan gynnwys gwresogi a mesurau arbed ynni ayyb).
- System Mesur Iechyd a Diogelwch ar gyfer Tai.
- Cymhorthion ac Addasiadau.

## Dadansoddiad Tlodi Tanwydd

Ein bwriad yw i gyhoeddi ffigyrau tlodi tanwydd pennawd (cenedlaethol) yn Ebrill 2019, a dadansoddiad tlodi tanwydd mwy manwl yn yr haf.

## Cysylltu data arolwg Cyflwr Tai Cymru â gwybodaeth am iechyd yng Nghronfa Ddata Cyswllt Diogel Gwybodaeth Ddienw (SAIL) a ffynonellau eraill

Mae llawer o ddiddordeb mewn cysylltu data Cyflwr Tai Cymru â data am iechyd a llesiant aelwydydd (boed o Arolwg Cenedlaethol Cymru neu ffynonellau data a gedwir yng nghronfa ddata SAIL. Mae hyn yn rhywbeth y mae tîm y Rhaglen Dystiolaeth ar Gyflwr Tai a Llywodraeth Cymru yn awyddus i'w hwyluso a byddant yn ymchwilio iddo dros y blwyddyn nesaf.

## Dadansoddiad / data ar lefel is

Amcangyfrifon ar lefel genedlaethol yn unig a ddarperir gan arolwg Cyflwr Tai Cymru 2017-18 ar y cychwyn. Bydd tîm y Rhaglen Dystiolaeth yn gweithio i ddefnyddio data Cyflwr Tai ochr yn ochr ag amryw o ffynonellau data arall gan gynnwys y rhai a ddefnyddiwyd fel rhan o'r prosiect arall yn y Rhaglen, sef Adnodd Dadansoddi Stoc Dai Cymru, i greu model enghreifftiol o ddata cyflwr tai ar gyfer ardaloedd daearyddol llai. Mae hyn yn rhywbeth y bydd y Tîm yn ymchwilio iddo ar ôl gorffen y dadansoddiadau pwnc manwl.

## Cael mynediad i setiau data ar gyfer eich ymchwil a'ch gwaith dadansoddi eich hun

Cyn gynted ag y bo modd ar ôl cyhoeddi'r Datganiad Ystadegol Cyntaf bydd detholiad o'r setiau data'n cael eu ffeilio ag Archif Data'r DU. Mae'n bosibl y rhoddir mynediad at setiau data mwy manwl os gwneir achos addas dros hynny ac y sefydlir Trefniant Mynediad i Ddata â Gwasanaethau Gwybodaeth a Dadansoddi Llywodraeth Cymru. Bydd data hefyd ar gael ar gais fel rhan o'n broses arferol.

## Cysylltu â ni

Os oes gennych unrhyw gwestiynau am y cynllun hwn, am yr arolwg neu'r Rhaglen yn ei chyfanrwydd, mae croeso i chi anfon e-bost i ystadegau.cyflwrtai@llyw.cymru.

**Rhagfyr 2018**